
PWYLLGOR IAITH, 24.04.18

Yn bresennol: Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Aled Evans, Judith Humphreys, Elin Walker Jones, Alan Jones Evans, John P. Roberts, Elwyn Edwards, Kevin Morris Jones, Elfed Wyn Williams, Eirwyn Williams, Elwyn Jones, Charles Wyn Jones.

Cefnogaeth Gorfforaethol: Gwenllian Mair Williams (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg), Elliw Alwyn (Rheolwr Prosiect Gwasanaethau Corfforaethol), Nia Hâf Davies (Rheolwr Cynllunio), a Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Eric M. Jones.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 27 Chwefror, 2018 fel rhai cywir.

5. YMGYNGHORIAD Y STRATEGAETH IAITH

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft o'r Strategaeth Iaith, 'Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023', gan y Rheolwr Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg. Nodwyd bod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y strategaeth wedi cychwyn ac y byddai'n dod i ben ar y 5ed o Fehefin 2018. Dywedwyd y bydd croeso i unrhyw unigolyn neu sefydliadau gynnig unrhyw sylwadau, gwelliannau neu awgrymiadau er mwyn eu hystyried. Bydd y strategaeth derfynol yn mynd ger bron y Cabinet a'r Cyngor Llawn ym mis Hydref 2018, ynghyd â chynllun gweithredu a fydd yn cael ei lunio yn yr haf.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebwyd i nifer o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:

- Gwallau iaith a cham dreiglo yn y strategaeth.
- Camau gweithredol yn esbonio beth sy'n mynd i ddigwydd, pwy sy'n gyfrifol, a sut mae mesur cynnydd ddim wedi eu cynnwys yn y strategaeth.
- Penderfyniadau'r Cyngor sy'n gwrthweithio yn erbyn nifer o'r amcanion sydd wedi eu cynnwys yn strategaeth e.e. cau'r clybiau ieuencid sy'n hybu'r defnydd o Gymraeg ymhlith phobl ifanc.

Tywyswyd yr aelodau drwy gynnwys y cwestiynau ymgynghoriad ar gyfer y Strategaeth iaith. Yn ystod y drafodaeth ddilydol ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:

Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r heriau

- Y 'Seisnigrwydd slei' sy'n deillio o'r dechnoleg/teclynnau electronig sy'n cael eu defnyddio mewn ysgolion - oes modd mynd i'r afael a hyn?
- Cyngor Gwynedd yw un o'r unig sefydliadau yng Nghymru sy'n flaengar i gyfieithu 'apps', darparu technoleg yn y Gymraeg, a darparu cyfarfodydd sy'n ddwyieithog – pam nad yw'r llywodraeth yn cyfrannu arian er mwyn cefnogi'r gwaith arbennig yma?
- A yw'n deg annog pobl ifanc 'i fod yn arweinwyr cymunedol ac i drefnu gweithgareddau yn eu cymunedau' pan mae'r Cyngor yn tynnu'r cyfleusterau a'r arian i wneud hyn oddi wrthynt?

Blaenoriaeth 1: Iaith y Cartref

- Trosglwyddiad ieithyddol yn wan ymhlith teuluoedd rhieni sengl - ydi'n bosib cael strategaeth benodol i fynd i'r afael a'r mater yma?
- Trosglwyddiad ieithyddol yn wan mewn teuluoedd ble mae'r tad yn unig sy'n siarad Cymraeg. Mae angen cryfhau'r neges bod tadau gyda rôl bwysig i sicrhau bod eu plant yn tyfu fyny yn ddwyieithog.
- Awgrym i sefydlu canolfannau trochi newydd mewn ardaloedd gyda chanran uchel o blant sy'n hwyr yn dysgu'r Gymraeg.
- Oes modd clymu gweledigaeth yr iaith gartref gyda nod y Siarter Iaith?

Blaenoriaeth 2: Iaith Dysgu

- Angen darparu neges glir i ddisgyblion ysgolion uwchradd bod y Gymraeg yn gymhwyster yn y sector gyhoeddus a'r sector breifat ac yn arwain at lawer mwy o gyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

Blaenoriaeth 3: Iaith Gwaith a Gwasanaeth

- Mae'r gweithle yn le pwerus i hybu'r defnydd o Gymraeg – mae'n bwysig ehangu'r gweithleoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn llwyr.
- Oes modd dylanwadu ar fanciau ac archfarchnadoedd a chwmnïau ynni mawrion i wneud mwy o ddewis iaith.
- Mae'n bwysig sicrhau bod y peiriannau hyn yn defnyddio Cymraeg hawdd sy'n cael ei ddefnyddio pob dydd. Yn aml, mae'r cyfieithiad yn rhy drwsogl a chymhleth sydd yn anodd deall, ac mae hyn yn troi pobl yn erbyn yr iaith.

Blaenoriaeth 4: Iaith y Gymuned

- Pwy sy'n gyfrifol am drefnu gweithgareddau cymdeithasol? Nodwyd ei bod yn mynd yn anodd cynnal momentwm pwyllgorau gwirfoddol.
- Wrth i'r Cymry Cymreig a siaradwyr di-gymraeg ddod at ei gilydd mewn gweithgareddau cymdeithasol mae peryg i iaith y gweithgaredd droi i'r Saesneg. Oes modd rhoi cymorth/cyfarwyddiadau syml i bobl yn y sefyllfaoedd hynny i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio heb gau allan y bobl ddi-gymraeg? Dylid hefyd ystyried canllawiau ar gyfer siarad gyda dysgwyr er mwyn eu cefnogi.
- Angen edrych ar opsiynau ar gyfer gallu cynorthwyo busnesau gyda chostau arwyddion dwyieithog, yn debyg i'r grantiau arferai fod ar gael gan Fwrdd yr Iaith.
- Angen cynnal mwy o sesiynau hyfforddiant 'sut i hybu'r Gymraeg yn y gymuned' ar gyfer cynghorwyr.

Blaenoriaeth 5: Ymchwil a Thechnoleg – Gosod y Seiliau Cywir

- Pwysigrwydd rhoi mynediad i dechnoleg Cymraeg i blant mewn ysgolion cynradd – os ydynt yn arfer i ddefnyddio technoleg Cymraeg o oedran cynnar maent yn fwy tebygol o ddefnyddio technoleg Cymraeg yn ei bywydau pob dydd wedi iddynt adael ysgol.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys y strategaeth a'r cwestiynau ymgynghoriad.

6. ADRODDIAD AR BOLISI ENWAU LLEFYDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd papur ymchwil yn amlinellu dyletswyddau a hawliau statudol yr Awdurdod yng nghyswllt bathu, arddel a chofnodi enwau tai, ystadau, strydoedd a lleoedd Gwynedd gan y Rheolwr Prosiect Gwasanaethau Corfforaethol. Nodwyd bod y mater wedi bod yn destun sawl cynwys sydd wedi dod ger bron y Pwyllgor dros y blynyddoedd diwethaf, ac amcan y papur ymchwil yw cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried canlyniadau ac argymhellion yr ymchwil a rhoi eu barn am y camau nesaf priodol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebwyd i nifer o gwestiynau/sylwadau gan aelodau unigol mewn perthynas â:

- Oes gan y Cyngor yr hawl i fynnu enwau Cymraeg ar stadau newydd?
- Pwy sy'n gyfrifol am enwi tai, datblygiadau a strydoedd sy'n berchen i'r Cyngor?
- Mae nifer o ddatblygiadau newydd yn fwy tebygol o gael enwau Cymraeg, oes modd pwysleisio'r pwynt yma?
- Mae'r mater yn codi pryder, nid yn unig wrth enw tai a strydoedd, ond wrth enwi caeau, creigiau neu ddarnau o'r mynyddoedd. Oes modd edrych am arian i osod plac arnynt yn nodi'r enwau cywir er mwyn hybu'r enwau Cymraeg?

PENDERFYNWYD: Cytuno i barhau i weithio ar sail yr adroddiad er mwyn cael mwy o eglurder, yn enwedig o ran enwi nodweddion daearyddol a sut y gallwn ddylanwadu ar yr enwau a ddefnyddir gan gyrff allanol fel y Post Brenhinol a'r Arolwg Ordnans, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar unrhyw ddatblygiadau.

7. CYFLWYNIAD NCT/TAN 20 – ADRAN GYNLLUNIO

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor ar Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio A'r Gymraeg (Tan 20) yn dilyn cais gan y Cadeirydd a godwyd pryder bod arweinyddiaeth y Llywodraeth ar y mater yn annelwig a gwan. Nodwyd bod y Tan 20 newydd wedi'i gyhoeddi ers mis Hydref 2017 ac amlygwyd y cysondebau/gwahaniaethau rhwng y fersiwn hwn a'r fersiwn blaenorol, a thrafodwyd y gwendidau'r fersiwn newydd, a'r goblygiadau ar ardaloedd cynllunio Gwynedd a Môn.

Esboniwyd bod ymateb eisoes wedi'i anfon i'r Llywodraeth yn enw grŵp Plaid Cymru ym mis Rhagfyr i fynegi pryder ac anfodlonrwydd bod y Llywodraeth wedi anwybyddu sylwadau Cyngor Gwynedd a Môn, ac wedi methu â;

- chynnig diffiniad o ardaloedd sensitifrwydd ieithyddol;
- rhoi arweiniad ar yr asesiad iaith.

Adroddwyd bod ymateb wedi ei dderbyn gan y Gweinidog Lesley Griffiths AC, oedd yn nodi bod rhyddid i Awdurdodau Lleol ehangu ar y polisi cenedlaethol a datblygu eu canllawiau eu hunain i ymateb i anghenion lleol. Roedd felly yn rhoi y cyfrifoldeb yn nwylo'r Awdurdod Lleol i bennu'r hyn sydd yn briodol ar gyfer eu hardal hwy.

Gofynnwyd i'r aelodau a oeddynt yn dymuno anfon gohebiaeth bellach at y Llywodraeth yn enw'r Pwyllgor Iaith neu a oeddynt yn hapus i weld beth fyddai'n dod o ddatblygiad y Canllaw Cynllunio Atodol a chael diweddariad ar y mater yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: gadael yr eitem ar yr agenda ar gyfer diweddariad yn y pwyllgor nesaf.

8. CWYNION AC YMCHWILIADAU

Nid oedd unrhyw gwynion nag ymchwiliadau yw nodi.

CADEIRYDD